# Y CYNGOR DYDD IAU, 3 RHAGFYR 2020

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Edgar Wyn Owen (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Simon Glyn (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:** Craig ab Iago, Dylan Bullard, Stephen Churchman, Steve Collings, Annwen Daniels, R.Glyn Daniels, Anwen Davies, Elwyn Edwards, Alan Jones Evans, Aled Evans, Dylan Fernley, Peter Antony Garlick, Gareth Wyn Griffith, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, R.Medwyn Hughes, Judith Humphreys, Nia Jeffreys, Peredur Jenkins, Aled Wyn Jones, Anne Lloyd Jones, Berwyn Parry Jones, Elin Walker Jones, Elwyn Jones, Eric Merfyn Jones, Gareth Tudor Morris Jones, Huw Wyn Jones, Keith Jones, Kevin Morris Jones, Linda A.W.Jones, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Beth Lawton, Dilwyn Lloyd, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Dewi Owen, Jason Parry, Nigel Pickavance, Rheinallt Puw, Peter Read, Dewi Wyn Roberts, Elfed P.Roberts, Gareth A.Roberts, John Pughe Roberts, Mair Rowlands, Paul Rowlinson, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Mike Stevens, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Catrin Wager, Cemlyn Williams, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gareth Williams, Gruffydd Williams ac Owain Williams.

**Swyddogion:**
Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol / Swyddog Monitro), Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol / Pennaeth Gwasanaeth Democratiaeth), Rhun ap Gareth (Uwch Gyfreithiwr / Dirprwy Swyddog Monitro), Vera Jones (Rheolwr Democratiaeth ac Iaith) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Hefyd yn bresennol:**
Alwen Williams (Cyfarwyddwr Portffolio, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru) a Sioned Williams (Pennaeth Economi a Chymuned) (ar gyfer eitem 10)
Dr Einir Young (Cadeirydd y Pwyllgor Safonau) (ar gyfer eitem 11)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Menna Baines, Aeron M. Jones, Dafydd Owen, W.Roy Owen a Hefin Underwood.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y Cyfarfod Blynyddol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 1 Hydref, 2020 fel rhai cywir.

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

'Roedd yr aelodau wedi derbyn nodyn briffio ymlaen llaw gan y Swyddog Monitro ynglŷn ag eitem 8 – Cynllun Gostyngiadau Treth Cyngor 2021/22 ac eitem 9 – Treth Cyngor: Hawl Disgresiwn i Ganiatáu Disgowntiau a / neu Godi Premiwm 2021/22.

(1) Datganodd y Cynghorydd Stephen Churchman fuddiant personol yn eitem 8 ar y rhaglen – Cynllun Gostyngiadau Treth Cyngor 2021/22 – oherwydd ei fod yn hawlio gostyngiad Treth Cyngor ar ei gartref, ac felly'n elwa o'r cynllun.

Nid oedd yr aelod o'r farn ei fod yn fuddiant sy'n rhagfarnu, ac ni adawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

(2) Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol yn eitem 9 ar y rhaglen – Treth Cyngor: Hawl Disgresiwn i Ganiatáu Disgowntiau a / neu Godi Premiwm 2021/22:-

- Y Cynghorydd Peredur Jenkins oherwydd ei fod yn rhentu dau eiddo.
- Y Cynghorydd Aled Wyn Jones oherwydd bod gan berthynas iddo ail-gartref yng Ngwynedd.
- Y Cynghorydd Linda Morgan oherwydd bod ganddi deulu sy'n berchen ar ail gartrefi.
- Y Cynghorydd Dewi Wyn Roberts oherwydd bod ganddo gyswllt â rhywun fydd yn cael ei effeithio gan y Premiwm.
- Y Cynghorydd Angela Russell oherwydd ei bod yn berchen ar ail gartref ac yn gweithio i bobl tai haf.
- Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn oherwydd bod ganddo gysylltiad agos â pherson sy'n talu'r Premiwm.

Roedd yr aelodau o'r farn eu bod yn fuddiannau sy'n rhagfarnu a gadawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

## 4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Cydymdeimlwyd â'r canlynol:-

- Y Cynghorydd Gareth Thomas ar golli ei fam yn ddiweddar.
- Teulu'r cyn-gynghorydd Morgan Vaughan. Cyflwynwyd teyrnged gan y Cynghorydd Anne Lloyd Jones.
- Teulu'r Cynghorydd Charles Wyn Jones. Cyflwynwyd teyrnged gan y Cynghorydd Selwyn Griffiths.

Nodwyd hefyd bod y Cyngor yn dymuno cofio am bawb o fewn cymunedau'r sir oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

Ymdawelodd y Cyngor fel arwydd o barch a choffadwriaeth.

Dymunwyd yn dda i'r canlynol:-

- Mr Dewi Pritchard Jones ar ei ymddeoliad fel Crwner ddiwedd Tachwedd, a diolchwyd iddo am ei waith ar hyd y blynyddoedd.
- Elfyn Evans o Ddolgellau, a gynt o Ddinas Mawddwy, yn rownd derfynol Pencampwriaeth Rali'r Byd.

Llongyfarchwyd y canlynol:-

- Y Tîm Ynni yn yr Adran Tai ac Eiddo ar ennill gwobr Brydeinig (Energy Management Awards – Public Sector Team of the Year) – gwobr haeddiannol iawn o ystyried, nid yn unig eu llwyddiant wrth leihau allyriadau carbon, ond hefyd eu gwaith arbennig o dda yn y maes caffael ynni.
- Liz Saville Roberts, arweinydd Plaid Cymru yn San Steffan, ar ennill Gwobr Aelod Seneddol y Flwyddyn gan yr elusen amrywiaeth a chynhwysiant, Sefydliad Patchwork. Nodwyd bod Aelod Seneddol Dwyfor Meirionnydd wedi ei chydnabod am ei gwaith rhanbarthol yn hyrwyddo hawliau merched ifanc, gan ennill gwobr 'Aelod Seneddol Plaid Arall y Flwyddyn.'

## 5. GOHEBIAETH, CYFATHREBIADAU, NEU FUSNES ARALL

Dim i'w nodi.

## 6. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 7. CWESTIYNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau.

## 8. CYNLLUN GOSTYNGIADAU TRETH CYNGOR 2021/22

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Cyllid, y Cynghorydd Ioan Thomas, adroddiad yn gofyn i'r Cyngor gadarnhau parhad y Cynllun Lleol cyfredol ar gyfer darparu cymorth tuag at dalu'r Dreth Gyngor am y flwyddyn yn cychwyn 1 Ebrill, 2021.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Parhau i weithredu Cynllun Lleol y Cyngor am y flwyddyn yn cychwyn 1 Ebrill 2021 fel ag yr oedd yn ystod 2020/21. Felly, bydd yr amodau canlynol (i – iii isod) ynghylch yr elfennau disgresiwn yn parhau:**

**(i) Gweithredu diystyrwch o 100% i bensiynau anabledd rhyfel, a phensiynau gweddwon rhyfel, ar gyfer pensiynwyr a hawlwyr oed gweithio fel ei gilydd.**

**(ii) Peidio cynyddu'r cyfnodau estynedig o ostyngiadau i bensiynwyr a hawlwyr oed gwaith o'r pedair wythnos safonol sydd yn y Cynllun Rhagnodedig.**

**(iii) Peidio cynyddu'r cyfnod ôl-ddyddio i bensiynwyr a hawlwyr oed gwaith o'r tri mis safonol sydd wedi'i nodi ar hyn o bryd yn y Cynllun Rhagnodedig.**

**(b) Lle'n briodol, dirprwyo'r grym i'r Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Cabinet dros Gyllid, i wneud mân addasiadau i'r cynllun am 2021/22, ar yr amod na fydd yn newid sylwedd y cynllun.**

## 9. TRETH CYNGOR: HAWL DISGRESIWN I GANIATÁU DISGOWNTIAU A / NEU GODI PREMIWM 2021/22

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Cyllid, y Cynghorydd Ioan Thomas, adroddiad yn gofyn i'r Cyngor am gadarnhad ffurfiol am 2021/22 o'r penderfyniadau blaenorol i beidio caniatáu disgownt i ail gartrefi a pheidio caniatáu disgownt ar eiddo gwag, ac i godi premiwm o 50% ar eiddo perthnasol o'r fath.

Gan gyfeirio'n benodol at ail-gartrefi, nododd yr Aelod Cabinet:-

- Bod y ddarpariaeth a'r amlder o gartrefi gwyliau wedi tyfu dros y blynyddoedd diwethaf, ynghyd â'r effeithiau cysylltiedig, yn gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.
- Bod poblogrwydd Gwynedd fel cyrchfan wyliau a'r defnydd o lety gwyliau fel buddsoddiad ariannol yn ffactorau, a gwelwyd twf sylweddol yn ddiweddar yn y niferoedd o unedau preswyl sy'n cael eu defnyddio fel llety gwyliau ar draws y sir gyfan.
- Y bwriedid cyflwyno papur ymchwil ar reoli'r defnydd o dai fel tai gwyliau i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 10 Rhagfyr, gydag argymhellion penodol i'w trafod yn y Cabinet ar 15 Rhagfyr.

- Er y cydnabyddid na fyddai modd gweithredu ar yr argymhellion hynny'n syth oherwydd yr angen am ddeddfwriaeth gan Lywodraeth Cymru, roedd graddfa'r Premiwm ar eiddo yn fater roedd gan y Cyngor llawn fodd i weithredu arno.
- Y bu gohebiaeth gyson a chyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol rhwng Cyngor Gwynedd, gweinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru, i drafod ein pryderon ynglŷn â gallu perchnogion ail-gartrefi i ddefnyddio Adran 66 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 er mwyn trosglwyddo eu heiddo o fod yn eiddo domestig, sy'n talu Treth Cyngor, i fod yn unedau hunan-ddarparu, sy'n destun ardrethi annomestig.

Nododd y Dirprwy Arweinydd:-

- Bod yr argymhelliad yn cynnig cadw at y sefyllfa bresennol o godi premiwm o 50% ar ail gartrefi a thai gweigion, ond y daeth yn amlwg o drafodaethau gydag aelodau, cynigion yn y Cyngor a galwadau cyhoeddus yn ein cymunedau, bod angen ail-ystyried y Premiwm, gyda'r bwriad o'i gynyddu.
- Bod y sefyllfa'n argyfyngus yn y sir, gyda tai o'r stoc yn cael eu colli i fod yn ail-gartrefi a phobl leol yn methu fforddio prynu tai yn eu cymunedau.
- Bod y Cabinet a'r aelodau wedi bod yn pwyso ar y Llywodraeth i newid y ddeddf a rhoi'r hawliau i ni reoli ail-gartrefi. Roedd y Llywodraeth wedi dweud nad oedd gennym dystiolaeth i gyfiawnhau hynny, ond roedd y dystiolaeth wedi'i chyhoeddi bellach, a byddai'n cael ei thrafod yn fuan.
- Yn ogystal â thrafod y papur ymchwil ar reoli'r defnydd o dai fel tai gwyliau, byddai'r Cabinet ar 15 Rhagfyr yn trafod y Cynllun Gweithredu Tai, sef cynllun uchelgeisiol a chyffrous oedd yn buddsoddi oddeutu £77m mewn darparu tai ar gyfer pobl ifanc y sir.
- O fod yn ymwybodol o'r teimladau cryf ar y mater hwn, yr hoffai gynnig gwelliant i ddileu'r geiriau "*ac yn codi premiwm o 50% ar ail gartrefi dosbarth B*" yn ail bwynt bwled yr argymhelliad, gan osod y geiriau "*ond yn gohirio penderfyniad ynglŷn â gosod y Premiwm a gofyn i'r Cabinet ystyried priodoldeb cynyddu y lefel i 100%. Gofynnir i'r Cabinet gynnal proses ymgynghori ar y sail yma, ystyried y ffactorau perthnasol a dod ag argymhelliad pellach i'r Cyngor ym mis Mawrth 2021*" ar ôl "dosbarth B". Eiliwyd y gwelliant.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau a gofyn cwestiynau ar y gwelliant. Cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Awgrymwyd y dylid defnyddio mwy o ddisgresiwn yng nghyswllt tai sy'n wag ac yn y broses o gael eu hatgyweirio.
- Mynegwyd pryder y gallai codi'r Premiwm ar ail-gartrefi i 100% wthio mwy o bobl i ganfod ffyrdd o osgoi talu'r dreth. Roedd llawer o berchnogion ail-gartrefi yn datgan mai eu tŷ yng Ngwynedd oedd eu prif gartref bellach, a galwyd am edrych i mewn i hyn, gan hefyd edrych ar ddulliau o brofi nad yw'r cyfan o'r 2000 o dai sydd wedi trosglwyddo i'r ardreth annomestig yn fusnesau.
- Pwysleisiwyd bod angen ymgyrch genedlaethol i gau'r bwlch o ran trosi tai gwyliau yn fusnesau, a bod lle i Gyngor Gwynedd arwain ar hyn.
- Nodwyd y mawr obeithid y byddai'r Cabinet yn gefnogol i'r gwelliant, a hefyd yn cynnig syniadau y tu hwnt i'r mater treth yn unig.

Mewn ymateb i'r sylwadau, ac i gwestiynau gan aelodau unigol, nododd y Pennaeth Cyllid:-

- Bod yr egwyddor o ganiatáu eithriad Treth Cyngor am gyfnod hwy i brynwyr tro cyntaf sy'n atgyweirio hen dai yn un o'r prosiectau o fewn y Cynllun Gweithredu Tai, ac felly dylai hyn gael sylw buan. Gallai'r Cabinet wneud penderfyniad ar y cyfnod, ond nid oedd gan y swyddogion lawer o hyblygrwydd fesul achos yn hyn o beth.

- Bod trefniadau casglu'r Dreth Gyngor yn effeithiol iawn, a bod perchnogion ail-gartrefi yn gallu talu'n brydlon.  Fodd bynnag, roedd y Cyngor yn colli'r dreth, yn ogystal â'r Premiwm, ar eiddo oedd yn trosglwyddo i fod yn fusnes, ac yn cael ei daro gan yr ôl-ddyddio hefyd.  Roedd y nifer a drosglwyddodd llynedd dros 400, ac roedd y ffigwr yn agos at hynny'n barod eleni.  Yn y blynyddoedd cyn hynny, roedd tua 300 y flwyddyn.
- Bod yr Arweinydd, y Prif Weithredwr, y Pennaeth Cyllid ac eraill wedi gweithio gyda'r Llywodraeth o gwmpas Mawrth / Ebrill eleni i roi rheolau yn eu lle fel nad oedd pob eiddo oedd wedi trosglwyddo yn derbyn y grant Covid, ond yn y diwedd bu i rhwng deuparth a thri chwarter ohonynt dderbyn y grant, gan y profwyd bod yr eiddo yn cael ei osod am fwy na 140 diwrnod y flwyddyn yn yr achosion hynny.  Er y dymunid bod wedi gallu eu heithrio'n llwyr, byddai hynny wedi eithrio rhai busnesau gwyliau go iawn, a chyfaddawd oedd hyn yn y diwedd.
- Fel casglwr y Dreth Gyngor, roedd y Cyngor yn gallu plismona'r sefyllfa o ran prif gartrefi, e.e. drwy wirio i ba gyfeiriadau roedd datganiadau banc yn cael eu hanfon, ac ati.  Fodd bynnag, gan fod y mwyafrif oedd wedi trosglwyddo yn derbyn Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bychain llawn, nid oedd diben iddynt ddatgan bod yr eiddo'n brif gartref ai peidio.
- Mai Swyddfa'r Prisiwr, asiantaeth yn CThEM, oedd yn plismona'r mudo o'r rhestr ddomestig i'r rhestr fusnes, ond roedd yn ymddangos nad oeddent yn gwirio'r dystiolaeth yn ddwfn iawn.  Gan hynny, roedd y Cyngor yn parhau i ymgyrchu mewn ymgais i argyhoeddi Llywodraeth Cymru i newid y ddeddfwriaeth, ac roedd gwaith ar droed gan yr Adran Gyllid, a hefyd gan y Gwasanaeth Cynllunio, i symud hyn ymlaen yn y gobaith o weld cynnydd dros y misoedd nesaf.

Gan gyfeirio at eiriad y gwelliant, eglurodd y Prif Weithredwr fod newid ail bwynt bwled yr argymhelliad yn unig yn anghyson â'r rhan gyntaf sy'n argymell fod y Cyngor yn gwneud dim newid i'r cynllun ar gyfer 2021/22.  Gan hynny, awgrymodd fod y gwelliant yn cael ei gwmpasu ar gyfer yr holl benderfyniad, fel bod y penderfyniad yn ei gyfanrwydd yn cael ei gyfeirio yn ôl i'r Cabinet.

Nododd cynigydd y gwelliant ei fod yn hapus i newid ei welliant yn unol â hynny, a chydsyniodd yr eilydd i'r newid hefyd.

Nododd y Cynghorydd Eryl Jones-Williams na fyddai'n pleidleisio'r naill ffordd na'r llall ar y mater hwn, gan iddo golli cysylltiad am ran helaeth o'r drafodaeth.

**PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn gohirio penderfyniad ynglŷn â chaniatáu disgowntiau a chodi premiwm, gan ofyn i'r Cabinet ystyried priodoldeb cynyddu y lefel i hyd at 100%.  Gofynnir i'r Cabinet gynnal proses ymgynghori ar y sail yma, ystyried y ffactorau perthnasol, a dod ag argymhelliad pellach i'r Cyngor ym mis Mawrth 2021 yn unol ag Adran 12, 12B a 12A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.**

## 10. CYTUNDEB TERFYNOL AR GYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad yn cyflwyno'r pecyn o ddogfennau allweddol oedd eu hangen ar gyfer cyrraedd Cytundeb Terfynol ar Gynllun Twf Gogledd Cymru gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.  Nododd:-

- Y byddai mabwysiadu'r argymhellion yn caniatáu arwyddo'r Cytundeb Terfynol gyda'r ddwy Lywodraeth ar 17 Rhagfyr.
- Y bu'n daith hir o dair blynedd o safbwynt y Cynllun Twf ei hun, ond bod sefydlu Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi digwydd bron i wyth mlynedd yn ôl, pan ddaeth awdurdodau'r Gogledd, y prifysgolion, y colegau a'r sector breifat at ei gilydd i gyfarch materion datblygu'r economi ar lefel ranbarthol.

- O gydweithio, bod y bartneriaeth yn cael ei chydnabod yn eang fel un gadarn, ac yn esiampl o ymarfer da.
- Bod y chwe awdurdod sy'n bartneriaid ar y Bwrdd o sawl lliw gwleidyddol a chefndir economaidd gwahanol iawn, ond bod y chwe Arweinydd yn gytûn mai lles pobl y Gogledd sy'n bwysig.
- Y dymunai ddiolch i aelodau'r bartneriaeth, gan gynnwys y prifysgolion a'r colegau a'r sector breifat, sydd wedi bod yn rhan fawr o'r drafodaeth ac o ddatblygu'r cynlluniau.
- Yr hoffai ddiolch hefyd i'r tîm o swyddogion dan arweiniad Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio, a nododd fod y ffaith bod yna gystal tîm o swyddogion yn y Gogledd yn gweithredu yn y maes datblygu'r economi yn rhoi hyder iddo y bydd modd cyfarch y problemau mawr fydd yn ein hwynebu i'r dyfodol.
- Fel swyddogion statudol yr awdurdod lletya, bu Dafydd Edwards, Pennaeth Cyllid, ac Iwan Evans, Swyddog Monitro yn allweddol yn arwain timau o swyddogion ar draws y Gogledd wrth gyflawni'r gwaith cyllidol a chyfreithiol a llywodraethiant, ac y dymunai ddiolch iddynt hwythau hefyd am eu cyfraniad arbennig i waith y Bwrdd.
- Bod sefyllfa'r economi yn y Gogledd wedi newid ers i brosiectau'r cynllun gael eu datblygu'n wreiddiol. Roedd Covid wedi cael effaith andwyol iawn, ac roedd dyfodol ansicr i'r economi hefyd yn sgil beth bynnag fyddai'n deillio o Brexit.
- Bod y Bwrdd Uchelgais yn fwy na'r Cynllun Twf, a bwriedid edrych ar ffrydiau eraill o fuddsoddiadau ariannol o sawl cyfeiriad.
- Ei fod yn siomedig bod Llywodraeth San Steffan wedi darparu llai o arian na'r cyfanswm a ofynnwyd amdano ar y cychwyn, ond byddai arwyddo'r Cytundeb Terfynol cyn y Nadolig yn rhyddhau ffrwd o'r £240m, gyda £16m yn cael ei dderbyn bob blwyddyn dros y pymtheng mlynedd nesaf ar gyfer gweithredu prosiectau'r Cynllun Twf dros y 5-6 mlynedd nesaf.

Croesawyd Alwen Williams (Cyfarwyddwr Portffolio) a Sioned Williams (Pennaeth Economi a Chymuned) i'r cyfarfod, a gwahoddwyd y Cyfarwyddwr Portffolio i roi cyflwyniad sleidiau. Yn ystod y cyflwyniad, manylwyd ar:-

- Bortffolio y Cynllun Twf - nod, maint y buddsoddiad ar gyfer y cynllun yn ei gyfanrwydd ac amcanion gwariant.
- Trosolwg o'r rhaglenni
- Rhestr o Brosiectau'r Cynllun Twf.
- Buddion rhanbarthol

Gwahoddwyd y Pennaeth Economi a Chymuned i gyflwyno sleid ar y buddion penodol i Wynedd, sef:-

- Gwell cysylltiad digidol ar gyfer busnesau, trigolion ac ymwelwyr.
- Mynediad at gyfleusterau, offer, cefnogaeth ac ymchwil arbenigol ar gyfer busnesau bwyd a diod Gwynedd drwy fuddsoddiad ar safle Glynllifon.
- Mynediad at ymchwil arloesol a chefnogaeth gyda thechnegau ffermio cynaliadwy ar gyfer y busnesau ffermio yng Ngwynedd.
- Cyfleoedd cadwyn gyflenwi a swyddi yn sgil prosiectau cyfalaf fel Morlais, Porthladd Caergybi, ac ati.
- Cyfleoedd am fentrau ynni adnewyddadwy o fewn y Prosiect Ynni Lleol Blaengar a buddsoddiad yn y Ganolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel ym Mhrifysgol Bangor.
- Buddsoddiad £20m yn isadeiledd safle Trawsfynydd ar gyfer datblygiad ynni carbon isel arloesol.
- Cyfleoedd i ddatblygu safleoedd strategol fel rhan o'r rhaglen Tir ac Eiddo hirdymor yn cynnwys safle Bryn Cegin.

Pwysleisiwyd hefyd mai un rhaglen oedd y Cynllun Twf, a bod yna brosiectau eraill fyddai'n ychwanegu gwerth, ac yn adeiladu ar hyn ar hyd a lled Gwynedd.

Gwahoddwyd y Pennaeth Cyllid i roi trosolwg o'r goblygiadau cyllidol. Nodwyd:-

- Y byddai'r ariannu grant yn dod yn gyson gan y ddwy Lywodraeth dros y 15 mlynedd, ond y byddai'r gwariant yn fwy cyflym dros y 6 blynedd cyntaf.
- Y byddai'n rhaid benthyg i ddelio â'r llif arian yma, ac fel awdurod lletya, byddai Gwynedd yn hwyluso hyn i'w bartneriaid drwy sefydlu trefn fyddai'n rhoi swm cyfraniad cyson rhesymol dros y pymtheng mlynedd i dalu'r gost benthyg.
- Gan nad oedd amseriad y taliadau na'r cyfraddau llog, ac ati, yn wybyddus eto, rhoddwyd amrediad i'r holl bartneriaid, ac roedd yr amrediad i Wynedd yn amrywio rhwng tua £80,000 - £118,000 y flwyddyn.
- Bod Cytundeb Llywodraethu 2 yn sicrhau na fyddai'r un partner yn medru cerdded i ffwrdd heb dalu ei siâr o'r costau hyn.

Gwahoddwyd y Swyddog Monitro i roi trosolwg o'r cytundeb llywodraethu a'r goblygiadau cyfreithiol. Nodwyd:-

- Bod Cytundeb Llywodraethu 2 yn ein trosglwyddo i gyfnod gweithredol a chyflawni'r Cynllun Twf a'r Weledigaeth Twf.
- Bod y cytundeb yn creu fframwaith cyfreithiol oedd yn ymrwymo pob partner i'w cyfraniadau, ac ni allai neb gerdded i ffwrdd oddi wrth y cytundeb heblaw ar draul parchu eu hymrwymiadau ariannol i'r dyfodol hefyd.
- Bod yna drefniadau llywodraethu o fewn y cytundeb oedd yn cynnal y Bwrdd Uchelgais ac yn darparu ar gyfer materion megis craffu a rheolaeth ariannol a staffio ayb.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau a gofyn cwestiynau. Cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Nodwyd bod y cynllun yn uchelgeisiol, a bod hynny i'w groesawu. Roedd amser caled o'n blaenau, ac roedd yn dda bod gennym y math hwn o gynllun wrth law.
- Mynegwyd pryder bod cyn lleied o'r prosiectau yn Nwyfor a Meirionnydd. Pwysleisiwyd pwysigrwydd bod yn hyblyg a dewr a gwneud popeth sy'n bosib' i gynorthwyo prosiectau sydd â'r potensial i ddod â nifer uchel o swyddi i'r ardaloedd hynny, a holwyd sut y gallai cwmnïau sy'n dymuno gwneud buddsoddiad o fewn y sir gymryd rhan yn y Cynllun Twf.
- Croesawyd y ffaith bod hwn yn gynllun sydd wedi'i ddatblygu yng Ngogledd Cymru, a'i fod yn creu swyddi safonol gyda chyflogau da fydd yn caniatáu i bobl ifanc fyw a gweithio yn eu cymunedau.
- Cyfeiriwyd at un o egwyddorion allweddol y Weledigaeth Twf, sef canolbwyntio ar gadw pobl ifanc, codi lefelau cyflogaeth a gwella sgiliau er mwyn cyflawni twf cynhwysol, a chredid yn gryf y byddai'r cynllun hwn o gymorth i ymateb i bryderon rhieni nad oes digon o gyfleoedd gwaith o safon yma yn y Gogledd Orllewin.
- Nodwyd nad oes gwaith na thai i bobl ifanc mewn ardaloedd fel Pen Llŷn a mynegwyd pryder y bydd cwmnïau sy'n elwa o'r Cynllun Twf yn codi pac maes o law, ac yn mynd â'r grantiau gyda hwy.
- Nodwyd bod 2021 am fod yn flwyddyn heriol hefyd, ond bod y Cynllun Twf yn rhoi rheswm i ni fod yn bositif ac optimistaidd, a dymunwyd bob llwyddiant i'r fenter.
- Pwysleisiwyd pwysigrwydd gwneud popeth i annog a helpu busnesau newydd.
- Mynegwyd pryder ynglŷn â phenderfyniad Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy i dynnu eu haelodaeth yn ôl o'r Bwrdd Uchelgais.
- Mynegwyd pryder ynglŷn â'r prinder doctoriaid, deintyddion, milfeddygon a gofalwyr yng Ngwynedd.

- Mynegwyd pryder y bydd siroedd y Dwyrain wedi dwyn yr arian i gyd, ac na fydd y Gogledd Orllewin yn gweld fawr ddim o'r budd.
- Nodwyd ei bod yn anodd cael prosiectau yn y canolbarth a phwysleisiwyd pwysigrwydd cydweitho gyda Thwf y Canolbarth. Nodwyd hefyd bod y rhwydwaith ffyrdd yn rwystr i fuddsoddiad yn Ne'r sir.
- Nodwyd mai De Meirionnydd oedd un o'r ardaloedd tlotaf yn Ewrop, a mawr obeithid y byddai'r sefyllfa wedi gwyrdroi'n llwyr ymhen 10 mlynedd.
- Nodwyd mai breuddwyd oedd y sôn am fuddsoddiad o £1.1b i Ogledd Cymru, ac ofnid mai disgwyl y byddwn ni am y £722m o'r sector breifat.
- Mynegwyd pryder ein bod wedi ein clymu i fyny gyda Glannau Dyfrdwy a Wrecsam, lle mae'r boblogaeth fwyaf a lle mae'r budd mwyaf am ddod.
- Mynegwyd balchder fod Gwynedd yn cydweithio fel partner llawn wrth y bwrdd, ac yn arwain ar y cynllun pwysig hwn.
- Pwysleisiwyd bod angen atgyfnerthu'r diwydiant bwyd amaeth a nodwyd hefyd mai cynlluniau ynni carbon isel a digidol oedd y dyfodol.
- Croesawyd y ffaith y byddai Parc Cegin, Bangor yn cael ei ddefnyddio'n llawn.
- Nodwyd y dylid ymgyrchu am sefydlu ysgol feddygol, ddeintyddol a milfeddygol fel rhan o Brifysgol Bangor.
- Mynegwyd pryder bod y cynlluniau twf yn rhannu Cymru, a hynny mewn cyfnod o unoliaeth cenedlaethol, drwy uno'r Gogledd gyda Glannau Merswy, Y Canolbarth gyda Birmingham a'r De gyda Bryste.
- Nodwyd y deellid mai yn Warrington fydd y ganolfan wirio gwaith papur ar gyfer loriau fydd yn cludo nwyddau o Gaergybi i Iwerddon ar ôl Brexit, a chwestiynwyd pam nad oedd y ganolfan yn cael ei sefydlu ym Môn, neu hyd yn oed ym Mharc Cegin, Bangor, o ystyried agosrwydd y safle i'r A55.
- Nodwyd nad oedd cyfeiriad yn y papurau at Arfor, na chydnabyddiaeth bod Wylfa newydd wedi bod ar y gweill erioed.
- Nodwyd bod y weledigaeth i'w chanmol, ond y gwrthwynebid creu'r cysylltiad gyda Gogledd Lloegr, gan fod hynny'n ein gwanychu fel cenedl.
- Gofynnwyd i'n cynrychiolwyr sicrhau bod cyfran deg o'r arian yn dod i Wynedd.
- Awgrymwyd y dylai pob aelod sydd wedi siarad yn erbyn y cynllun ystyried beth ydi eu 'Plan B', gan ofyn a oes ganddynt £1.1b i'w wario ar greu swyddi i bobl ifanc yng Ngwynedd, oherwydd heb hynny, sut allent bleidleisio yn erbyn y cynllun?

Mewn ymateb i'r sylwadau, ac i gwestiynau gan aelodau unigol, nodwyd:-

- Y dymunid gweld budd yn dod i Ddwyfor a Meirionnydd. Bu'n broses anodd i sicrhau dosbarthiad teg o'r prosiectau ar draws y cynghorau i gyd, ond credid y llwyddwyd i wneud hynny. Roedd yna brosiectau fyddai'n mynd ar draws pob ffin ddaearyddol, e.e. y prosiect digidol a phrosiectau ynni carbon isel cymunedol, a byddai elfennau o'r prosiectau amaethyddol o gymorth ar draws y sir gyfan hefyd.
- O ran y trefniadau caffael, roedd y Swyddfa Portffolio yn gweithio ar strategaeth caffael fyddai'n galluogi i gwmnïau lleol ymgeisio am rywfaint o'r gwaith fyddai'n dod allan o'r Cynllun Twf. Byddai'n rhaid sicrhau na fyddai contract yn rhy fawr, neu wedi'i gyflwyno mewn ffordd fyddai'n atal cwmnïau lleol rhag gallu manteisio arno. Roedd defnyddio cwmnïau lleol i'r eithaf yn egwyddor sylfaenol i ni yn y Gogledd, ac yn arbennig yng Ngwynedd, gan mai ein pwrpas fel Bwrdd Uchelgais oedd cefnogi ein cwmnïau lleol ni yn gyntaf.
- O ran buddsoddiadau, rhan o'r weledigaeth oedd creu Gogledd Cymru fwy deniadol i fuddsoddwyr, nid o reidrwydd i fuddsoddi'n uniongyrchol yn un o brosiectau'r Cynllun Twf, ond oherwydd bod prosiectau'r Cynllun Twf yn creu adnoddau gwell ar gyfer buddsoddwyr sy'n edrych i leoli neu ail-leoli.
- Y deellid y pryderon o ran cwmnïau'n sefydlu yma ac yna'n codi pac, ond nid pwrpas y Cynllun Twf oedd taflu arian at gwmnïau i ddod yma i sefydlu, eithr creu amgylchedd sy'n ddengar i fusnesau a'u helpu. Ychwanegwyd bod busnesau lleol

yn crefu am lefydd i weithio ohonynt. Roedd llawer o fusnesau wedi sefydlu o'r newydd yn ystod y cyfnod Cofid, ac roedd angen rhoi pob cymorth a chefnogaeth iddynt.

- Y bu cefnogaeth Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy i holl weithgaredd y Bwrdd Uchelgais yn sylweddol iawn, ond y bu iddynt edrych ar eu gweithgaredd eu hunain yn dilyn Cofid, a gweld bod rhaid iddynt ganolbwyntio eu hadnoddau prin ar gefnogi eu haelodau. Fodd bynnag, roeddent yn parhau'n rhan o'r gweithgaredd, ac wedi bod yn rhan o hwyluso cynhadledd rithiol yn ddiweddar gyda 200 o fusnesau. Roedd y Bwrdd hefyd yn edrych ar syniadau o ran sut i wella ymgysylltu gyda'r sector fusnes, ac roedd y Grŵp Cefnogi Busnes, sef casgliad o berchnogion busnesau blaenllaw iawn yn y Gogledd, yn gwneud gwaith da iawn hefyd o ran cefnogi a chraffu gwaith y Bwrdd
- Na rennid pesimistiaeth rhai aelodau ynglŷn â'r cynllun. Roedd yna risgiau ym mhopeth wrth gwrs, ond dylid cofleidio'r cynllun hwn yn hyderus.
- Na fwriedid cefnu ar ardaloedd gwledig y sir, a bod y 6 awdurdod yn gyfartal o ran dylanwad ar y Bwrdd, gyda chryn ymddiriedaeth rhwng yr arweinyddion gwleidyddol a dymuniad gan bawb i sicrhau bod unrhyw fudd o'r cynllun yn cael ei ledaenu'n deg ar draws y Gogledd.
- Bod unrhyw ddatblygiad oddi fewn i ardal y Cyngor neu Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ddarostyngedig i bolisïau cynlluniau lleol, ac er mai'r Cyngor oedd yn gosod y polisïau hynny, roedd ein gallu i'w hamrywio yn eithaf cyfyng oherwydd y polisïau cenedlaethol. Roedd y sector breifat yn datgan fod rhaid i'r broses o gael caniatâd cynllunio a chaniatadau gan asiantaethau perthnasol eraill fod yn rhwyddach, ac roedd y neges yma wedi'i chyfleu i'r gweinidogion droeon. Roedd lle hefyd i ni ddylanwadu os oeddem yn meddwl bod cam yn cael ei wneud.
- Bod ein cysylltiadau economaidd, trafnidiaeth a chymdeithasol yn agos gyda Phowys a Cheredigion, ac er ein bod yn cael gwahoddiad i fynychu cyfarfodydd Pwyllgor Twf y Canolbarth, nid oeddem yn cael ein cydnabod fel partneriaid llawn yno. Roedd hyn yn destun pryder a rhwystredigaeth, ond bwriedid parhau i bwyso arnynt yn hyn o beth.
- Ystyrid bod y bartneriaeth ar draws y Gogledd wedi tynnu siroedd y Dwyrain yn agosach atom nag erioed o'r blaen. Er y byddai wedi bod yn bosib' i Fflint a Wrecsam droi eu golygon at Gaer a Lerpwl, roeddent wedi dewis troi at siroedd y Gorllewin oherwydd eu bod yn rhan o Gymru, ac roedd yna gyswllt gwych ac agos gydag arweinwyr Fflint a Wrecsam yn arbennig.
- Bod y buddsoddiadau rydym ni fel Cyngor yn roi i mewn i'r Cynllun Twf yn rhai degau o filoedd, ond byddai hynny'n esgor maes o law ar fudd o gannoedd o filiynau.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Cymeradwyo'r Cynllun Busnes Cyffredinol fel y ddogfen sy'n gosod y trefniadau ar gyfer cyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru fel sail ar gyfer ymrwymo i'r Cytundeb Terfynol a derbyn y Llythyr Cynnig Grant gyda Llywodraethau'r DU a Chymru.**

**(b) Cymeradwyo'r darpariaethau yng Nghytundeb Llywodraethu 2 sy'n ymwneud â swyddogaethau anweithredol, ac yn benodol yn mabwysiadu'r trefniadau ar gyfer Craffu sydd wedi'u nodi yn *"Cytundeb Llywodraethu 2: Atodiad 3"* ohono fel sail ar gyfer cwblhau'r Cytundeb Terfynol a derbyn y Llythyr Cynnig Grant gyda Llywodraethau'r DU a Chymru.**

**(c) Yn ddarostyngedig i gwblhau Cytundeb Llywodraethu 2, fod Cyngor Gwynedd yn cytuno i weithredu fel yr Awdurdod Lletya a Chorff Atebol, ac yn llofnodi'r llythyr Cynnig Cyllid Grant ar ran y Partneriaid, drwy law y Prif Swyddog Cyllid.**

**(ch) Cymeradwyo'r dull a ddefnyddir i gyfrifo cost benthyca sydd ei angen mewn egwyddor i hwyluso'r llif arian negyddol ar gyfer y Cynllun Twf, ac yn cynnwys darpariaeth o fewn Cyllideb y Cyngor i dalu'r cyfraniad hwn a'r cyfraniadau**

**craidd ac atodol sydd wedi'u sefydlu fel sydd wedi'i nodi yn GA2 (ac ym mharagraffau 5.5 – 5.7 o'r adroddiad).**

**(d) Dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd, y Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151, i gytuno ar fân newidiadau i'r dogfennau gyda'r Partneriaid fel sydd angen i gwblhau'r cytundeb.**

## 11. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU 2019/20

Croesawyd Dr Einir Young, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, i'r cyfarfod i gyflwyno adroddiad blynyddol y pwyllgor am 2019/20.

Wrth gyflwyno'r adroddiad, tynnwyd sylw'n benodol at y ffaith bod y pwyllgor wedi adrodd ers sawl blwyddyn nad oedd achosion yn dod ger eu bron, ac felly yn dod i'r casgliad fod safonau Gwynedd yn uchel iawn. Ond, yn flynyddol yng nghyfarfod llawn y Cyngor, roedd aelodau yn nodi fod achosion yn cael eu hanfon at yr Ombwdsmon, ond bod y broses yn hirwyntog a'r trothwy ar gyfer ymchwiliad yn uchel, gan ei fod yn penderfynu yn amlach na pheidio nad oedd achos i'w ateb. Roedd hyn yn siom i bobl oedd yn credu bod ganddynt gŵyn ddilys.

Eglurwyd nad oedd y Pwyllgor Safonau yn cael manylion yr achosion oedd yn mynd gerbron yr Ombwdsmon, oherwydd, petai achos i'w ateb, byddai'n cael ei anfon yn ôl at y pwyllgor, a byddai gwybod manylion yr achos ymlaen llaw yn rhagfarnu'r pwyllgor. Fodd bynnag, dymunid sicrhau'r Aelodau a'r trigolion fod cynnal safonau o'r pwys mwyaf, a bod rhaid i bawb gymryd cyfrifoldeb dros eu hymddygiad eu hunain.

Diolchodd Dr Einir Young i'r Swyddog Monitro a'r Uwch Gyfreithiwr Corfforaethol am eu harweiniad cyfreithiol a'u cefnogaeth drwy gydol y flwyddyn.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau a gofyn cwestiynau. Cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Sylwyd nad oedd yr Ombwdsmon wedi ymdrin ag unrhyw achos eto eleni, a mynegwyd pryder bod pobl yn teimlo bellach nad oes pwrpas mynd â'u cŵyn at yr Ombwdsmon. Nid oedd modd i neb, heblaw cadeirydd neu glerc cyngor cymuned, droi at Unllais am gymorth, a holwyd i ble roedd pobl i fod i fynd i gael chwarae teg.
- Cyfeiriwyd at achos lle bu i gynghorwyr ymddiswyddo o ganlyniad i benderfyniad yr Ombwdsmon i beidio ymchwilio i'w cŵyn eu bod yn cael eu bwlio.
- Nodwyd ei bod yn hawdd cyhuddo cynghorwyr o fwlio, ac unwaith mae'r bys wedi'i bwyntio, rhaid i'r unigolion hynny weithio'n galed iawn i amddiffyn eu hunain. Nid yw cyhuddiad o fwlio yn golygu o reidrwydd bod bwlio'n digwydd.

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, nodwyd bod rhaid gweithio o fewn y drefn sy'n bodoli. Roedd yna dros 700 o aelodau cynghorau cymuned a thref yng Ngwynedd a tua 63 o gynghorau, ac roedd yna brinder capasiti o fewn y cynghorau hynny i ymdrin eu hunain â materion sydd ddim yn cyrraedd y trothwy, yn enwedig yn y cynghorau llai. Nid oedd ateb syml i'r broblem, oni bai bod pot o adnoddau ychwanegol ar gael i hwyluso proses wahanol.

Diolchwyd i'r Dr Einir Young am ei chyflwyniad.

## 12. RHYBUDD O GYNNIG

Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Paul Rowlinson o dan Adran 4.20 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd:-

"Penderfyna'r Cyngor:

(a) Ysgrifennu at Lywodraeth Cymru a gofyn iddi ddefnyddio unrhyw bwerau sydd ganddi i liniaru unrhyw effaith andwyol ar anifeiliaid a phobl sy'n agored i niwed a achosir gan arddangosfeydd tân gwyllt.
(b) Ysgrifennu at Lywodraeth y DG a gofyn iddi gyflwyno deddfwriaeth i osod uchafswm lefel sŵn o 90dB ar gyfer tân gwyllt a werthir i'r cyhoedd ar gyfer arddangosfeydd preifat.
(c) Gofyn i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau roi sylw o fewn ei raglen waith i adolygu pa gamau all y Cyngor gymeryd i hyrwyddo neu annog:

- Fod pob arddangosfa tân gwyllt gyhoeddus o fewn ffiniau'r sir yn cael ei hysbysebu ymlaen llaw, o fewn ei gyffiniau gan roi cyfle i bobl gymryd rhagofalon dros eu hanifeiliaid a phobl sy'n agored i niwed.
- Ymgyrch i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o effaith tân gwyllt ar les anifeiliaid a phobl sy'n agored i niwed – gan gynnwys y rhagofalon y gellir eu cymryd i liniaru risgiau.
- Cyflenwyr lleol tanau gwyllt i werthu tân gwyllt llai swnllyd ar gyfer arddangosfeydd cyhoeddus.
- Pobl i gyfyngu defnyddio tân gwyllt i gyfnod agos at ddyddiadau arbennig."

Mynegwyd cefnogaeth i'r cynnig gan sawl aelod, ond nodwyd bod raid cofio hefyd bod tân gwyllt yn rhan annatod o ddathliadau crefyddol, megis Diwali, Gŵyl y Goleuni.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig, sef:-**

**(a) Ysgrifennu at Lywodraeth Cymru a gofyn iddi ddefnyddio unrhyw bwerau sydd ganddi i liniaru unrhyw effaith andwyol ar anifeiliaid a phobl sy'n agored i niwed a achosir gan arddangosfeydd tân gwyllt.**
**(b) Ysgrifennu at Lywodraeth y DG a gofyn iddi gyflwyno deddfwriaeth i osod uchafswm lefel sŵn o 90dB ar gyfer tân gwyllt a werthir i'r cyhoedd ar gyfer arddangosfeydd preifat.**
**(c) Gofyn i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau roi sylw o fewn ei raglen waith i adolygu pa gamau all y Cyngor gymeryd i hyrwyddo neu annog:**

- **Fod pob arddangosfa tân gwyllt gyhoeddus o fewn ffiniau'r sir yn cael ei hysbysebu ymlaen llaw, o fewn ei gyffiniau gan roi cyfle i bobl gymryd rhagofalon dros eu hanifeiliaid a phobl sy'n agored i niwed.**
- **Ymgyrch i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o effaith tân gwyllt ar les anifeiliaid a phobl sy'n agored i niwed – gan gynnwys y rhagofalon y gellir eu cymryd i liniaru risgiau.**
- **Cyflenwyr lleol tanau gwyllt i werthu tân gwyllt llai swnllyd ar gyfer arddangosfeydd cyhoeddus.**
- **Pobl i gyfyngu defnyddio tân gwyllt i gyfnod agos at ddyddiadau arbennig.**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00yp a daeth i ben am 3.55yp.

______________________________________
**CADEIRYDD**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 3.55 y.h.

**CADEIRYDD**